**45%** of the public in Wales would contact the police first if they witnessed cruelty to a wild animal inflicted by a human whereas **41%** would report it to the RSPCA first.<sup>31</sup>

<sup>31</sup> All figures, unless otherwise stated, are from YouGov Plc. Total sample size was 1,036 adults. Fieldwork was undertaken between 19<sup>th</sup>–22<sup>nd</sup> August 2015. The survey was carried out online. The figures have been weighted and are representative of all Welsh adults (aged 18+).

<sup>32</sup> Welsh Wildlife and Environment Enforcement Review 2012.

<sup>33</sup> The current strategy was launched in 2011 and ends during this year, 2015.





Photo: RSPCA Cymru



Photo: Simon Pain / RSCPA Photolibrary




Photo: RSPCA Cymru



Photo: RSPCA Cymru



Photo: RSPCA Cymru



Photo: RSPCA Cymru

<sup>34</sup> Statement by the Minister for Natural Resources: Cleaner, Safer Places for our Communities, Plenary 21<sup>st</sup> April 2015. [www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3158&language=en&c=Record%20of%20Proceedings](http://www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3158&language=en&c=Record%20of%20Proceedings)

<sup>35</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/post-implementation-review-single-use-carrier-bag-charge-wales/?lang=en>

# Litter

## ANIMAL WELFARE CONCERNS

The RSPCA in Wales received just under 300 calls in 2014, which was a similar figure to 2013, all relating to wildlife in need due to carelessly and deliberately discarded waste. As some incidents are dealt with by vets or other wildlife organisations, and many injured wild animals are never found, the true scale of the problem and effect on wildlife is unknown. Swans are the most affected animal in Wales and usually this is caused by angling or fishing litter.

## Legislation

Animal Welfare Act 2006  
Environmental Protection Act 1990  
Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005


## THE CURRENT SITUATION

The Welsh Government has recognised the importance of tackling littering by funding a significant amount of work in this area through partners such as Keep Wales Tidy and Fly-tipping Action Wales, with reports of a resultant five percent reduction in fly-tipping<sup>34</sup>. Innovative too, was the Welsh Government's introduction of a charge for single use carrier bags in 2011, which in the three years since has led to a 71 percent reduction in their use<sup>35</sup>. Whilst such developments are welcomed, sadly this has not corresponded to a reduction in calls to the RSPCA regarding wildlife affected by litter. The public awareness message may well be working to a degree in highlighting the wider effect on the environment and the survival of certain species, but little has been said regarding injury and suffering caused to individual animals, and even less so about the organisations who collect and treat those animals, and the resources needed to carry out such work.

The RSPCA has also long campaigned against the use of sky lanterns<sup>36</sup> which pose a danger to wildlife, farm and pets, but the image that has captured most people's attention across the world is where one lantern killed a barn owl (opposite). As such we were pleased when the Welsh Government wrote to local authorities in October 2013 encouraging them to introduce a voluntary ban. This is also supported by a range of organisations from farming unions to environment bodies. We then mounted our public campaign which has seen Wales go from four local authorities with a ban to 13<sup>37</sup>.

## RSPCA recommendation

Although there have been large-scale campaigns regarding conservation and the environment, there is an acute need for better public education regarding the effect litter has each year in Wales on the welfare of individual animals. Some of this could be paid for through funds raised from the levy on carrier bags. Until now such monies have not been ring-fenced for the animals affected by litter. Given direct animal welfare activities are not eligible for public funding streams and given the effect litter has on an individual animal's welfare, it should go on that before conservation. The remaining nine local authorities should adopt the ban on lanterns, however it is also important that the Welsh Government consider a ban on their use within any proposed Wildlife Bill as that can be the only way their use on private land could be prohibited.



**59% of the public in Wales support a ban on sky lanterns.<sup>38</sup>**


**More than 1,000 campaign actions taken by RSPCA supporters in efforts to get local authorities to ban sky lanterns. In October 2013 only four councils in Wales had banned lanterns. As a result of the campaign, by September 2015, 13 out of 22 now have a ban in place.**

<sup>36</sup> Sometimes referred to as 'chinese' lanterns.

<sup>37</sup> As of September 2015.

<sup>38</sup> All figures, unless otherwise stated, are from YouGov Plc. Total sample size was 1,036 adults. Fieldwork was undertaken between 19<sup>th</sup>–22<sup>nd</sup> August 2015. The survey was carried out online. The figures have been weighted and are representative (politically) of all Welsh adults (aged 18+).





## Case Study

### Dog Trapped in Snare

In October 2014 a member of the public spotted a dog caught in a snare in the pouring rain near a forestry area by the golf club at Maesycwmmwr, Hengoed. They cut the dog free, took him home and then called the RSPCA. The dog had been tethered in a fox snare, so therefore perfectly legal, but nevertheless it had caught this poor dog. The dog was shaken by the ordeal and so was taken to the vets to recover. Fortunately following an RSPCA press appeal the owner of the lost dog came forward and the pair were happily reunited.

<sup>39</sup> Report of the Independent Working Group on Snares, Defra, August 2005.

<sup>40</sup> Written Assembly Question – WAQ66377, February 2014.

<sup>41</sup> <http://llyw.cymru/about/cabinet/decisions/2015/jul-sep/environment/re1137/?lang=en>



# Snare

## ANIMAL WELFARE CONCERNS

Snare consist of an anchored cable and wire noose set to catch wild animals such as foxes or rabbits around the neck or body. Their simplicity and low cost to produce means they are considered to be a very effective pest control method by the industry. Animal organisations, however, strongly oppose their use due to concerns for the welfare of the animals caught and the number of non-target species captured. In Wales these traps are required by law to be free-running (self-locking snares are banned) so that they relax once the animal stops pulling, however the animal remains captive until the snare is re-visited when the animal can finally be dispatched or released. Until then, the animal may become victim to other predators or potentially suffer a slow, agonising death due to injury or starvation.

Under the Wildlife and Countryside Act 1981, snare users must take all reasonable precautions to prevent injury to protected animals, but precautions provide no guarantee against such an event. It is also a legal requirement that snares be checked at least once a day, yet from the severity of the injuries caused to a lot of animals it seems that many people do not follow even this minimal requirement. It is illegal to set snares for birds, deer or badgers however non-target mammals, including pets, are regularly caught due to the indiscriminate nature of these devices. The most commonly caught non-target species are cats and the RSPCA deals with several of these cases in Wales each year. Even with adherence to good practice, estimates suggest the number of non-target species caught by a snare is unlikely to drop below 40 percent<sup>39</sup>.

## Legislation

Animal Welfare Act 2006  
Wildlife and Countryside Act 1981

The Conservation of Habitats and Species Regs 2010 as amended in 2012

Deer Act 1991

Protection of Badgers Act 1992

## THE CURRENT SITUATION

Snare usage in Wales is significant. For example, depending on the time of year, in excess of 50,000 fox snares<sup>40</sup> may be set in Wales; emphasising the scale of this issue. The Food and Environment Research Agency published their study into the extent of use and humaneness of snares in England and Wales and the Welsh Government acknowledges that the "...research showed that some of the animals currently caught in snares are unnecessarily suffering as a result" and that it also highlighted noncompliance<sup>41</sup>. The Welsh Government has responded by introducing a voluntary Code of Practice<sup>42</sup>, developed with a range of stakeholders. Whilst the Code recognises much of the welfare issues of concern, some organisations such as the RSPCA and OneKind believe only a ban on the use of snares is acceptable in a society that cares about animal welfare. This is strongly supported by the public, with 72 percent supporting a ban on the use of all snares for all animals in Wales<sup>43</sup>.

### »» RSPCA recommendation

Only an outright ban on the use of snares in Wales meets the expectations of the public and ensures high animal welfare standards are reflected in our laws. A ban on their use would ensure target species do not suffer and also importantly remove the possibility of non-target species being caught. This could be achieved as part of the reform of wildlife legislation mentioned previously in this report. Whilst any measure other than a ban is not acceptable to animal welfare organisations, it is worth noting that Scotland introduced a tag system for labelling snares and a requirement for users to be accredited via formal training. This is an improvement on the situation in Wales however such measures fall short of ensuring animal welfare.

**72% support a ban on snares for all animals in Wales.**


<sup>42</sup> <http://gov.wales/newsroom/environmentandcountryside/2015/animal-welfare-at-the-heart-of-new-snares-code/?lang=en> with copies of the code available at <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/wildlife-management/foxes/?skip=1&lang=en>

<sup>43</sup> All figures, unless otherwise stated, are from YouGov Plc. Total sample size was 1,036 adults. Fieldwork was undertaken between 19<sup>th</sup>–22<sup>nd</sup> August 2015. The survey was carried out online. The figures have been weighted and are representative of all Welsh adults (aged 18+).



**Who the public in Wales would call first if they saw a wild animal in need.<sup>44</sup>**

● RSPCA	59%
● Local animal welfare charity/organisation	13%
● Fire brigade	7%
● Police	5%
● Veterinary practice	5%
● Local authorities	3%
● Other	1%
● Don't know	5%
● Not applicable - I wouldn't contact anyone in this situation	2%



# Rescue, Rehabilitation and Release

## ANIMAL WELFARE CONCERNS

Human impacts on non-domesticated species are varied, as has been demonstrated throughout this report, but British, 'free-living' wildlife is most often recognised as a conservation or sustainability issue, with animal welfare being largely overlooked in protection programmes and funding streams. Many animal welfare organisations, including the RSPCA, are left to cope with the huge cost of collecting, rehabilitating and re-releasing the nation's casualty wildlife. For most people this work goes largely unnoticed until, that is, they see a wild animal in need. With such minor public attention given to this area of work, there is little that can be done to quantify it as a whole and as such less is known about what human actions cause suffering to wild animals.

## THE CURRENT SITUATION

It is often companion animals that overshadow the press and public consciousness regarding animal welfare and yet the RSPCA collects, rescues, rehabilitates and releases hundreds of wild animals every year – in 2014 this totalled 3,724 in Wales. Of those, 585 injured, sick or orphaned wild animals were admitted into RSPCA wildlife facilities for care, rehabilitation and eventual release back to the wild. This essential and very specialist work deserves recognition in its own right.

Although the breadth and extent of this work is unlikely to be widely known, it is heartening that when polled, nearly three in five Welsh adults<sup>44</sup> would contact the RSPCA first if they saw a wild animal in need of rescuing, although this does of course place a greater burden on RSPCA resources and it is not always possible to respond to every phone call regarding an animal in need. Although it is not always the case, many veterinarians will treat injured wildlife for free but as this is not always known by members of the public, they may be reluctant to take an injured wild animal to their local veterinary practice. In addition, there are many species of wild animal that should not be approached or handled by an untrained person.

**»» RSPCA recommendation**

A central Government, but voluntary, database designed to capture all relevant data by species and incident would help to educate both the public and policy-makers in Wales as well as allow for any necessary targeted awareness campaigns where wildlife is being threatened by human action or inaction. Such information could lead to a greater understanding for the welfare needs of wild animals and open up funding streams to allow for even more work to be done.

In parts of Wales during winter, fluffy white seal pups are a regular sight. Unfortunately some become sick or separated from their mother – sometimes as a result of a member of the public interacting with the animal mistakenly believing it to have been abandoned. In 2014 the RSPCA worked, often with Welsh Marine Life Rescue, to rescue 50 seals, most of which were young pups and so had to be taken to specialist facilities until fit, healthy and old enough to be released back to the wild in the new year. In food alone it costs £2730 a week per pup in our care and they can be with us for anything up to eight months.



**Wildlife in need collected from Wales and admitted to the RSPCA's own wildlife facilities:**

**2014 - 585**  
**2013 - 679**  
**2012 - 439**



<sup>44</sup> Specifically 59 percent. All figures, unless otherwise stated, are from YouGov Plc. Total sample size was 1,036 adults. Fieldwork was undertaken between 19th–22nd August 2015. The survey was carried out online. The figures have been weighted and are representative of all Welsh adults (aged 18+).





# DANGOSYDDION LLES ANIFEILIAID GWYLLT

[www.politicalanimal.wales](http://www.politicalanimal.wales)

Llun y Clawr: RSPCA Cymru

## RSPCA Cymru

6, Cae Gwyrdd, Parc Busnes Greenmeadow Springs, Caerdydd CF15 7AB  
[www.rspca.cymru](http://www.rspca.cymru) [www.politicalanimal.wales](http://www.politicalanimal.wales)

 [facebook.com/RSPCAcymru](https://facebook.com/RSPCAcymru)  [@RSPCAcymru](https://twitter.com/RSPCAcymru)

Mae'r RSPCA yn helpu anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Elusen gofrestredig rhif: 219099  
Drwy roddion y cyhoedd yn unig y mae'r RSPCA yn bodoli

Tachwedd 2015

Wedi'i argraffu ar ddefnyddiau a ailgylchwyd 100%  
drwy ddefnyddio prosesau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd

# DANGOSYDDION LLES ANIFEILIAID GWYLLT

RHAGAIR	5
CYFLWYNIAD	6
SYRCAS	9
LLOCHESAU	11
PRIMATIAID YN ANIFEILIAID ANWES	13
ANIFEILIAID ANWES EGSOTIG	15
ERLYNIADAU	17
SBWRIEL	19
MAGLAU	21
ACHUB, GWELLA A RHYDDHAU	23





# Rhagair

## REBECCA EVANS AC, Y DIRPRWY WEINIDOG FFERMIO A BWYD

Rwy'n ddiolchgar i RSPCA Cymru am y diweddaraf yn ei gyfres o ddangosyddion lles anifeiliaid, gan ddwyn ynghyd am y tro cyntaf gasgliad o ddangosyddion sy'n rhoi cipolwg ar y materion lles sy'n ymwneud ag anifeiliaid gwyllt yng Nghymru.

Deddf Lles Anifeiliaid 2006 oedd y ddeddfwriaeth bwysicaf yn ymwneud â lles anifeiliaid ers bron i ganrif. Daeth y Ddeddf i rym yng Nghymru ar 27 Mawrth 2007 gan roi "dyletswydd gofal" ar berchenogion a cheidwaid anifeiliaid anwes, anifeiliaid fferm ac anifeiliaid gwyllt mewn caethiwed, a hyn yn cynnwys anifeiliaid egsotig, anifeiliaid gwyllt mewn sw ar rhai a ddefnyddir i berfformio.

Rydym ni yng Nghymru ar flaen y gad wrth weithredu safonau lles uwch i anifeiliaid. Mae Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn nodi ein gweledigaeth i barhau i wella a chynnal safonau i anifeiliaid cadwedig, ar yr un pryd hefyd â helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd a chyfrannu at yr economi ar amgylchedd. Mae'r Fframwaith yn gyfle pwysig i ni ganolbwyntio ar sicrhau'r safonau uchaf o ran iechyd a lles anifeiliaid ac mae'r adroddiad dangosyddion hwn, sy'n rhoi cipolwg ar rai o'r pryderon lles anifeiliaid, yn rhoi gwaelodlin i'r data sydd ar gael, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliannau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na allwn greu newid ar ein pennau ein hunain. Mae gan y gymdeithas gyfan ran i'w chwarae ac, yn benodol, mae rhanddeiliaid mewn sefyllfa gref i wthio newid yn ei flaen. Dyna un rheswm pam y mae Cynllun Gweithredu'r Fframwaith ar gyfer 2015-16 yn nodi rhai cerrig milltir allweddol wrth weithio gyda rhanddeiliaid i flaenoriaethu meysydd ar gyfer gweithredu.

Yn ogystal â'r Fframwaith, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gyda rhanddeiliaid i wella safonau lles drwy wella arferion defnyddio maglau, ac eleni cyhoeddum God Ymarfer ar Ddefnyddio Maglau i Reoli Llwynogod. Yn y bôn, mae'r Cod am sicrhau safonau uwch o ran lles anifeiliaid, gan sicrhau rheoli llwynogod yn fwy effeithlon, a bod llai o rywogaethau nad ydynt yn darged yn cael eu dal.

Ar ben hynny, mae Comisiwn y Gyfraith wedi bod yn gweithio ar adroddiad i wneud ein deddfwriaeth bywyd gwyllt yn glir, yn ymarferol ac yn gydlynol. Rwy'n croesawu'r gwaith hwn, a byddaf, ynghyd â'r Gweinidog dros Adnoddau Naturiol, yn rhoi ystyriaeth ofalus i'w adroddiad ar Bil drafft pan gânt eu cyhoeddi.

Edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio ag RSPCA Cymru a rhanddeiliaid ledled Cymru i barhau â'r gwaith sydd wedi'i wneud i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid.



*Rebecca Evans*

# Cyflwyniad

**Mae Dangosyddion Lles Anifeiliaid Gwyllt yn dwyn ynghyd am y tro cyntaf gasgliad o ddangosyddion sy'n taflu goleuni ar y materion lles sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid gwyllt yng Nghymru. Dyma'r olaf mewn cyfres o adroddiadau sydd yn cynnwys *Dangosyddion Lles Anifeiliaid 2011 – oedd yn sôn am nifer o rywogaethau ac arferion, Dangosyddion Lles Cŵn 2012, Dangosyddion Lles Ceffylau 2013, a Dangosyddion Lles Anifeiliaid a Bwyd 2014, ac mae modd gweld y cyfan ohonynt yn: [www.politicalanimal.wales](http://www.politicalanimal.wales)***

## Mesur lles anifeiliaid

Cipolwg yn unig yw'r casgliad dangosyddion hwn i rai o'r materion pwysicaf sy'n ymwneud â lles anifeiliaid gwyllt ac mae'n dioddef, fel y gwna unrhyw fynegai, oherwydd diffyg data gwrthrychol. Mae'r RSPCA ers tro byd wedi sylweddoli pwysigrwydd mynd ati i fesur lles anifeiliaid ond mae heriau yn parhau o ran cael gafael ar ddata, cloddio amdano a dadansoddi data o ffynonellau eraill.


Mae'r term 'anifail gwyllt' yn oddrychol, ac mae'n golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, ond yn yr adroddiad hwn defnyddir 'anifeiliaid gwyllt' am yr holl anifeiliaid hynny nad ydynt fel arfer yn ddo. Mae'r rhestr yn enfawr, yn amrywio o foch daear i adar yn nythu, ac mae'n cynnwys nadroedd yn anifeiliaid anwes ac eliffantod mewn caethiwed. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad hwn yn sôn am amryw o bryderon yn ymwneud ag anifeiliaid gwyllt a'r pryderon hynny yn seiliedig ar sut maent yn cael eu trin a phobl yn achosi dioddefaint diangen iddynt – yn hytrach na faint o rywogaethau sydd yna. Mae hyn yn golygu bod y ffocws yn gadarn ar les anifeiliaid yn hytrach nag ar gadwraeth rhywogaethau mewn perygl, er y cydnabyddir bod y ddau faes yn gorgyffwrdd. Mae sector yr amgylchedd drwyddi draw wedi bod yn mesur yr effeithiau ar faterion cadwraeth a datblygiad

cynaliadwy ers nifer o flynyddoedd, ond mae'n wir dweud bod y sector lles anifeiliaid ar ei hôl hi – rhywbeth y mae'r adroddiad hwn yn ceisio, yn rhannol o leiaf, fynd i'r afael ag ef.

## Ffactorau eraill

Mae nifer o faterion eraill sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid gwyllt nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd diffyg gwybodaeth a data neu oherwydd nad ydynt yn dod o fewn cylch gorchwyl y Llywodraeth yng Nghymru. Mae'r materion hyn yn cynnwys hela â chŵn, anifeiliaid sw ac anifeiliaid sy'n perfformio er difyrwch. Er bod yr olaf yn fater datganoledig, nid yw wedi bod yn broblem mor fawr yma ag yn Lloegr oherwydd graddfa gymharol fach y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru – er bod yr RSPCA yn dal wedi derbyn 15 cwyn yn 2014 yn ymwneud â defnyddio anifeiliaid mewn perfformiadau. Mae'r diwydiant ffilm a theledu wedi tyfu'n sylweddol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf<sup>2</sup> fodd bynnag, sy'n golygu y bydd angen rhoi sylw i'r mater hwn. Mae barn gref gan y cyhoedd yng Nghymru ar y pwnc hwn, gan fod 72 y cant yn cefnogi cyflwyno gofynion ychwanegol ar ben y gyfraith bresennol er mwyn sicrhau lles pob anifail sy'n perfformio.<sup>3</sup> I fynd i'r afael â rhai o'r pryderon dan sylw ac i ddiogelu lles yr anifeiliaid yn well, mae'r RSPCA wedi datblygu ei wasanaeth ymgynghori ei hun ar anifeiliaid sy'n perfformio – mae'r manylion

- Data anifeiliaid
- anwes egsotig yr
- RSPCA ar gyfer
- 2014 yng
- Nghymru:
- Derbyn galwadau yn
- ymwneud â 1,536
- o anifeiliaid.
- Casglu 253 o
- anifeiliaid anwes
- egsotig.
- Ymchwilio i 407
- o gŵynion am
- greulondeb i
- anifeiliaid egsotig.
- Cael 20 euogfarn
- am droseddau yn
- ymwneud ag
- anifeiliaid anwes
- egsotig megis
- dreigiau barfog,
- geocoid a nadroedd
- (rhwng 2012 a 2014).



<sup>1</sup> Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau o Fflora a Ffawna Gwyllt mewn Perygl

<sup>2</sup> Mae'r ffigur hwn yn cynnwys rhywogaethau domestig gan fod y ffigurau wedi'u cofnodi'n ganolog gan ein hadran Bywyd Gwyllt sy'n gweinyddu'r gwasanaeth ymgynghori.

<sup>3</sup> Daw'r holl ffigurau o YouGov Plc oni nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,036 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 19 a 22 Awst 2015. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).



am hyn i'w cael yma: [www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/performinganimals](http://www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/performinganimals)

Maes arall sy'n peri pryder nad yw wedi'i gynnwys ar dudalennau'r adroddiad hwn yw Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976. Ni chafodd y ddeddfwriaeth hon ei chynllunio ac felly mae'n annigonol i amodi dros les yr anifeiliaid y mae'n gyfrifol amdanynt. Dyma gyfle a gollwyd ond yn bwysicach credir bod diystyrru eang (a amcangyfrifir i fod mor uchel â 85–90 y cant<sup>4</sup>) ar y ddeddfwriaeth, a llawer o berchnogion yn llwyddo i beidio â chael eu canfod neu nid ydynt yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol. Darganfu Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes (CAWES) 2008–2011<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru mai dim ond 14 o geidwaid oedd â thrwydded o dan y Ddeddf, ond mae gwir nifer y ceidwaid yn debygol o fod yn llawer iawn uwch o ystyried y dystiolaeth ledled yr adroddiad hwn. Da o beth felly fyddai adolygu'r gyfraith hon a'r gorfodi arni, a gallai hyn fod yn rhan o atgyfnerthu ehangach ar yr holl ddeddfwriaeth bywyd gwyllt yng Nghymru, a byddai hefyd yn helpu i safoni troseddau yn ogystal â gwneud y gyfraith yn haws ei deall i aelodau'r cyhoedd. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi bod yn ymchwilio i'r mater hwn ar ran Defra a Llywodraeth Cymru (ac ar fin cyhoeddi adroddiad), ac mae'r Comisiwn ei hun wedi disgrifio'r tirlun deddfwriaethol presennol fel un sydd "wedi dyddio, yn ddryslud ac yn aml yn gwrthdweud ei hun"<sup>6</sup>. Ar fater cysylltiedig, byddai'r RSPCA hefyd yn annog gwleidyddion Cymru i sylweddoli bod bron i ddau o bob pump o oedolion Cymru yn credu y dylai lles anifeiliaid fod ym maniffesto pob plaid wleidyddol ar gyfer yr etholiadau nesaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016.<sup>7</sup>

Mae'r RSPCA yn ymroddedig i geisio gwella lles pob anifail ond yr her fawr i'n gwaith â bywyd gwyllt yw nifer enfawr yr anifeiliaid a'r rhywogaethau sydd yna, a'r ffyrdd amrywiol y

mae pobl yn rhyngweithio â'r anifeiliaid hyn. Rydym yn defnyddio ymchwil wyddonol a thystiolaeth ymarferol i gefnogi ein safbwyntiau ac annog newid mewn sawl ffordd wahanol. Mae'r meysydd pwnc dan sylw yn cynnwys: anifeiliaid gwyllt wedi'u cadw yn anifeiliaid anwes neu eu defnyddio i berfformio; gwrthdaro rhwng pobl a bywyd gwyllt; creulondeb i fywyd gwyllt sy'n byw yn rhydd (megis maglu anghyfreithlon, gwenwyno, saethu); rheoli neu ddifa bywyd gwyllt; effaith rhywogaethau anffrodorol ar anifeiliaid brodorol; achub ac ailsefydlu bywyd gwyllt, gan gynnwys ymchwil i'w gallu i oroesi ar ôl cael eu rhyddhau; a'r masnachu mewn bywyd gwyllt.

### Y dangosyddion

Er nad yw'n rhestr gyflawn o bell ffordd, mae pob un o'r dangosyddion yn yr adroddiad hwn yn nodi pryderon lles a'r sefyllfa bresennol yn ogystal ag argymhellion ar gyfer gwella. Rydym bob amser wedi ceisio defnyddio'r data mwyaf perthnasol a mwyaf diweddar sydd ar gael, ac mae hyn yn ddo'i hun yn amlgu problem. Mae angen mwy o ddata arnom i wir ddeall pa mor eang a dwys yw'r broblem. Anogwn y Llywodraeth a rhanddeiliaid i gydlynu ymhellach â'i gilydd er mwyn gallu nodi tueddiadau, a monitro'n deg pa mor effeithiol yw 'datrysiadau'.

Yn ogystal â meincnodi a dangos 'lle rydym' o ran lles anifeiliaid yng Nghymru, bwriad cyhoeddiad o'r natur hwn yw ceisio procio'r meddwl, annog newid a gwneud argymhellion ar sut y gellir gwneud gwelliannau. Mae'n bwysig am nifer o resymau, nid yn unig o safbwynt amddiffyn anifeiliaid, ac mae'n hanfodol ar gyfer hysbysu llywodraeth (yn genedlaethol ac yn lleol), rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd yng Nghymru. Y gobaith yw y gall fod yn ganllaw gwerthfawr i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru o ran lles anifeiliaid gwyllt, gan arwain at adnabod a delio â phroblemau, sicrhau atebion, ac ailadrodd dysgu cadarnhaol ledled gwahanol faterion.

- Data bywyd
- gwyllt yr RSPCA
- ar gyfer 2014
- yng Nghymru:

- Casglu 3,724 o anifeiliaid gwyllt sy'n byw yn rhydd.

- Derbyn 281 o alwadau yn ymwneud â sbwriel yn effeithio ar fywyd gwyllt.

- Derbyn 585 o anifeiliaid gwyllt i'n cyfleusterau ailsefydlu ni ein hunain.

- Ymchwilio i 247 o gŵynion am greulondeb i anifeiliaid gwyllt sy'n byw yn rhydd.



<b>1981</b> Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad	<b>1991</b> Deddf Ceirw	<b>1992</b> Deddf Gwarchod Moch Daear	<b>1996</b> Deddf Mamaliaid Gwyllt (Diogelu)	<b>1997</b> Rheoliadau Rheoli Masnachu mewn Rhywogaethau mewn Perygl (Gorfodi)	<b>1998</b> Deddf Llywodraeth Cymru	<b>2004</b> Deddf Hela	<b>2006</b> Deddf Lles Anifeiliaid	<b>2006</b> Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig	<b>2007</b> Deddf Llywodraeth Cymru	<b>2010</b> Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau	<b>2011</b> Cymeradwyaeth refferendwm – Lles anifeiliaid yn awr wedi'i ddatganoli yn llawnach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
---	----------------------------	--	---	---	--	---------------------------	---------------------------------------	--	--	---	---

<sup>4</sup> Greenwood AG, Cusdin PA, Radford M (2001). Effectiveness study of the Dangerous Wild Animals Act 1976. Contract Ymchwil Defra CRO246 Mehefin 2001.

<sup>5</sup> <http://gov.wales/docs/drah/publications/110915cawesbaselineen.pdf>.

<sup>6</sup> Comisiwn y Gyfraith – Modernising wildlife law, 15 Hydref 2013.

<sup>7</sup> Yn benodol 39 y cant. Daw'r holl ffigurau o YouGov Plc oni nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,036 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 19 a 22 Awst 2015. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).



<sup>8</sup> Harris S, Iossa G, Soulsbury C (2009). A review of wild animals in circuses. *Animal Welfare* 18: 129–140.

<sup>9</sup> Daw'r holl ffigyrau o YouGov Plc, oni nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,001 o oedolion o Gymru (18+ oed). Gwnaed y gwaith maes rhwng 4 a 8 Medi 2014. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

<sup>10</sup> Daw'r ffigyrau hyn o YouGov Plc oni nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,036 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 19 a 22 Awst 2015. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

# Syracas

## PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Ni ellir byth fodloni anghenion cymhleth anifeiliaid gwyllt yn ddigonol mewn amgylchedd syracas. Nid oes modd i'r anifeiliaid osgoi cael eu cludo'n rheolaidd, byw mewn llety dros dro sy'n gyfyng ac yn foel, cael eu gorfodi i hyfforddi a pherfformio, a dioddef swm mawr a thorffeydd o bobl. Mae teigrad a llewod a fyddai fel arfer yn crwydro am filltiroedd bob dydd yn y gwyllt yn cael eu cau mewn wagenni a llociau bychain anial am 90-99 y cant o'r amser. Nid yw'n anghyffredin gweld anifeiliaid syracas yn dangos ymddygiad ailadroddus megis cerdded yn ôl ac ymlaen a siglo o ochr i ochr. Nid dawnio yw hyn, ond arwydd bod problem. Dengys ymchwil gwyddonol fod bywyd syracas yn gallu cael effaith niweidiol ar les nifer o rywogaethau, a'r anifeiliaid gwyllt a ddefnyddir amlaf yw'r rhai sy'n lleiaf addas ar gyfer y math hwn o fywyd.<sup>8</sup>

## Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae tua 20 o anifeiliaid gwyllt, gan gynnwys nadroedd, sebras a chathod mawr, wrthi'n perfformio ar hyn o bryd mewn ambell syracas yn y Deyrnas Unedig. Roedd un syracas wedi ailfrandio ei hun yn ddigwyddiad addysgol dan yr enw 'Noson yng nghwmni llewod a theigrad' ac wedi teithio ledled Cymru yn 2015. Credir bod tua hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gwahardd syracasau ag anifeiliaid gwyllt rhag defnyddio tir cyhoeddus, a chynghorau eraill yng Nghymru yn rheolaidd yn gwrthod ceisiadau at ddibenion o'r fath, ond maent yn dal yn gallu defnyddio tir preifat. Credir bod nifer yr ymwelwyr wedi bod yn isel yn y digwyddiadau diweddar ledled Cymru, a gellid priodoli hyn yn rhannol o bosibl i brotestiadau hawliau anifeiliaid y tu allan i'r lleoliadau, ond hefyd efallai i'r newid ym marn y cyhoedd. Mae'r gefnogaeth dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syracasau yng Nghymru wedi codi o 61 y cant yn 2014<sup>9</sup> i 74 y cant yn 2015<sup>10</sup> ar ôl clywed bod gwledydd eraill yn Ewrop wedi gwahardd anifeiliaid rhag perfformio mewn syracas. Cyflwynodd Defra system drwyddedu interim i syracasau sy'n gweithredu yn Lloegr<sup>11</sup> ond ni fyddai'n dderbyniol cyflwyno cynllun tebyg yng Nghymru neu aros i syracasau 'ddarfod o'r tir' pan ddylai cyfraith cenedl adlewyrchu ei normau a'i gwerthoedd yn gywir gan ddatgan yn glir, ar lwyfan ryngwladol, fod defnyddio anifeiliaid gwyllt yn y fath fodd yn anghydnaws â'u lles. Yn wir mae llawer o wledydd wedi cyflwyno gwaharddiad, gan gynnwys Awstria, Bolifia, Bwlgaria, Colombia, Costa Rica, Croatia, Cyprus, El Salvador, Groeg, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Israel, Latfia, Malta, Mecsico, Panama, Paraguay, Periw, Singapore a Slofenia. O dan gyfraith Ewrop, deddfwyd ei fod yn fater i'r Aelod-wladwriaeth a chred y RSPCA na fyddai hyd yn oed yn rhaid defnyddio deddfwriaeth sylfaenol gan y gellid cyflwyno gwaharddiad drwy reoliadau o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid yng Nghymru.

### Argymhelliad yr RSPCA

Mae gan Lywodraeth Cymru gefnogaeth mudiadau lles anifeiliaid a chefnogaeth y cyhoedd, yn ogystal â'r modd, i gyflwyno gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt mewn syracasau. Er bod Llywodraeth y DU yn anfodlon gwneud hynny, mae datganoli yn golygu y gall Cymru fwrw ymlaen a gwneud cymaint dros les anifeiliaid. Nid oes unrhyw syracas yn byw neu'n aros dros y gaeaf yng Nghymru, ond mae'r RSPCA er hynny yn cefnogi gwaharddiad graddol ar anifeiliaid gwyllt gan y byddai hyn yn rhoi fframwaith i'r diwydiant yn ogystal ag yn rhoi amser iddynt ddarparu ar gyfer lles tymor hir eu hanifeiliaid.

Nid yw'r RSPCA yn credu y byddai gwaharddiad yn niweidiol i ddyfodol ariannol y diwydiant syracas gan y datganodd aelod o'r diwydiant mewn erthygl papur newydd nad oedd effaith ar incwm pan nad oes actau anifeiliaid<sup>12</sup> ac yn wir mae sawl syracas heb anifeiliaid yn llwyddiannus iawn. Nid yw'r RSPCA yn credu ychwaith y byddai gwaharddiad yn cael effaith negyddol ar ddiwydiant clyweledol y Deyrnas Unedig. Mae'r RSPCA wedi datblygu canllawiau ar les anifeiliaid sy'n perfformio<sup>13</sup> er mwyn cynorthwyo â datblygiad eu defnyddio yn y diwydiant clyweledol gan fod y diwydiant yn derbyn actau anifeiliaid o amrywiaeth eang o ffynonellau ac nid yw felly yn dibynnu ar anifeiliaid syracas.

**Mae 74% o'r cyhoedd yng Nghymru yn cefnogi gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt yn perfformio mewn syracas yng Nghymru.**

**Mewn pedwar mis yn unig, llofnododd 7,700 o bobl ddeiseb RSPCA Cymru yn cefnogi gwaharddiad.<sup>14</sup>**

<sup>11</sup> Datblygyd hyn cyn y gwaharddiad a gyhoeddwyd ar anifeiliaid gwyllt mewn syracas, a Llywodraeth Cymru wedi bwriadu ei ymestyn i Gymru, ond ar yr adeg hon yn mis Medi 2015 nid oedd unrhyw ddeddfwriaeth wedi'i chyflwyno yn San Steffan.

<sup>12</sup> <http://www.express.co.uk/posts/view/300137/Circus-drops-animal-acts-after-public-stay-away>

<sup>13</sup> <http://www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/performinganimals>

<sup>14</sup> Ar 27 Medi 2015. Mae'r ddeiseb yn cau ar 9 Hydref 2015 a disgwyllir i bwyllgor deisebau ei drafod ar 20 Hydref 2015.





<sup>15</sup> <http://gov.wales/docs/drah/publications/110915cawesbaselineen.pdf>.

<sup>16</sup> <http://www.awnwales.org/wp-content/uploads/2013/03/AWE-report-final.pdf>.

# Llochesau

## PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Nid yw canolfannau lles anifeiliaid, 'gwarchodfeydd', 'canolfannau ailgartrefu' neu 'glinigau/ysbytai bywyd gwyllt' – sy'n cael eu galw yma yn 'llochesau' – yn cael eu rheoleiddio ac felly nid oes modd gwybod faint o anifeiliaid sy'n cael gofal mewn llefydd o'r fath. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r RSPCA ac awdurdodau lleol wedi'u gorfodi i weithredu yn erbyn lleoliadau sy'n hysbysebu eu hunain fel llochesau. Yn y sefyllfaoedd hyn, ni ddaeth y wybodaeth i'r golwg nes bod yr anifeiliaid eisoes wedi dioddef yn sylweddol a thros gyfnod o amser. Gall achosion fel hyn brofi'n gostus dros ben gan eu bod yn aml yn ymwneud â nifer fawr o anifeiliaid. Heb ddeddfwriaeth sy'n mynnu archwiliadau blynyddol a rhai ar hap, nid oes unrhyw fodd o arbed dioddefaint o'r math hwn. Yn ogystal â hyn, mae angen gwybodaeth a hyfforddiant mwy arbenigol ar anifeiliaid gwyllt fel arfer er mwyn sicrhau eu hanghenion lles, ynghyd â dealltwriaeth o ddeddfwriaeth gymhleth. Yn aml, mae llochesau yn dechrau arni drwy ofalu am un neu ddwy rywogaeth ond maent yn cael enw yn lleol fel lle achub anifeiliaid a chyn bo hir mae pob math o anifeiliaid yn cyrraedd yno eisieu cymorth. Gan nad oes unrhyw ofynion cyfreithiol o ran hyfforddiant, math o gytiau/llety penodol neu uchafswm ar niferoedd, polisïau ar ewthanasia neu ymweliadau rheolaidd gan filfeddyg, gall sefydliadau o'r fath fynd i drafferthion yn gyflym.

## Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2012

Deddf Gwarchod Moch Daear 1992

Deddf Ceirw 1991

Deddf Cadwraeth Morloi 1970

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

Cofnododd Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes (CAWES) 2008-2011<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru fod 88 lloches yng Nghymru. Oherwydd diffyg diffiniad cydnabyddedig ar problemau sy'n gysylltiedig â chofnodi data cyson ar draws yr awdurdodau lleol perthnasol, gallai'r ffigwr hwn fod yn llawer uwch ac nid ydym yn gwybod ychwaith pa llochesau na faint ohonynt sy'n gofalu am unrhyw fath o fywyd gwyllt (gan fod sawl rhywogaeth ynddynt fel arfer). Yn 2012 cyflwynodd Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW) adroddiad cynhwysfawr<sup>16</sup> i Lywodraeth Cymru yn dadlau o blaid rheoleiddio sefydliadau neu 'llochesau' anifeiliaid yng Nghymru, adolygiad a oedd wedi cynnwys ymgynghori ar holl randdeiliaid yn ogystal â derbyn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ganddynt. Mae rhai o'r rhanddeiliaid hyn yn ymwneud ag achub ac ailsefydlu bywyd gwyllt ac maent yn cefnogi'r angen am reoleiddio ar eu sector. At hynny, yn ôl arolwg barn<sup>17</sup> a gomisiynwyd gan yr RSPCA, roedd 69 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru yn credu y dylid rheoleiddio llochesau, a dim ond wyth y cant yn gwrthwynebu datblygiad o'r fath yn 2013.

Cyflwynodd un grŵp ddeiseb i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru<sup>18</sup> yn cefnogi gwaith yr AWWN yn sgil ei bryderon am un lloches benodol. Mae gweithredu parhaus<sup>19</sup> gan gefnogwyr hefyd yn tynnu sylw at ymgyrch yr RSPCA ymysg y cyhoedd yng Nghymru, sydd wedi arwain at gannoedd o lythyrâu yn cael eu hanfon at y Dirprwy Weinidog yn 2015.

Mae'r AWWN wedi croesawu gwahoddiad diweddar Llywodraeth Cymru i ailedrych ar y mater hwn. Mae gweithgor y prosiect wedi cael ei ailgyrnu a disgwylir iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfnod cyfamserol, yn ogystal â dadansoddiad llawnach o ddeisiadau angen, erbyn gwanwyn 2016.

## Argymhelliad yr RSPCA

Cred yr RSPCA mai'r unig ffordd i amddiffyn anifeiliaid mewn llochesau a sicrhau dyfodol cynaliadwy tymor hir i'r llochesau fyddai cael system cofrestru neu drwyddedu gan yr awdurdod lleol (lle byddai modd adfer yr holl gostau i'r cyngor) ar system honno'n mynnu archwiliadau sy'n seiliedig ar risg, ymweliadau archwilio ar hap a pholisïau gweithredu gofynnol. Byddai canolfannau'r RSPCA eu hunain wrth gwrs yn agored i unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath.

"Mae cynnydd mewn lles anifeiliaid yn cael ei ddal yn ôl oherwydd diffyg rheoleiddio. Rwyf wedi bod yn ymwneud â'r sector ailsefydlu bywyd gwyllt ers bron i 30 mlynedd. Rwyf wedi gwneud camgymeriadau yn ystod y cyfnod hwn sydd yn ddi-os wedi achosi dioddefaint diangen i anifeiliaid gwyllt. Mae arnom angen system sy'n atal eraill rhag ailadrodd yr un camgymeriadau. Yn yr 21ain ganrif mae'n bryd rhoi'r gorau i aildyfeisio'r olwyn. Mae ailsefydlu bywyd gwyllt yn faes arbenigol o ran lles anifeiliaid ac mae'n dwin ynghyd nifer o ddisgyblaethau gwyddonol – a rhaid dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r rhain. Rhaid annog trugaredd, ond gall trugaredd heb ymdeimlad o gyfrifoldeb ac/neu ddiffyg gwybodaeth briodol arwain at greulondeb anfwriadol. Byddai rheoleiddio yn helpu i greu fframwaith i ledaenu arfer da a datblygu safonau sy'n seiliedig ar dystiolaeth."

Simon Allen, Ysbyty Adar Gŵyr

<sup>17</sup> Daw'r holl ffigyrau o YouGov Plc, oni nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,012 o oedolion o Gymru. Gwnaed y gwaith maes rhwng 18 a 22 Gorffennaf 2013. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn (wleidyddol) gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

<sup>18</sup> <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglssueHistoryHome.aspx?lId=7414>.

<sup>19</sup> <http://www.rspca.org.uk/getinvolved/campaign/walesanctuaries>.





## Astudiaeth achos

**Boo Boo. Mwnci Cycyllog (*Capuchin/ Cebus apella*). Rhyw: benyw. Dyddiad geni: tua 2001. Cyrraedd Wild Futures: 2008**

Daethpwyd â Boo Boo o Gymru i gael ei gwerthu mewn maes parcio am £2,000 ynghyd â dau fwnci marmoset. Roedd y gwerthwr ar perchennog newydd yn meddwl mai mwnci gwrywaidd oedd hi, a dyna pam fod y pris yn gymharol isel, gan fod mwnciod benywaidd yn werth llawer mwy yn y fasnach primatiaid oherwydd eu defnyddio i fridio. Roedd ei pherchennog newydd wedi'i chadw hi am chwe blynedd ar ei phen ei hun bach yng ngwaelod yr ardd mewn cawell 10' x 7' x 10' gyda drws bach i sied 8' x 3' x 7' wedi'i wresogi. Roedd teledu yn cael ei adael ymlaen rhwng 8 y bore a 6.30 y nos ar perchennog yn ymweld pan oedd ganddo amser.

Yn ystod ei bywyd yno, ni welodd Boo Boo filfeddyg erioed ac nid oedd wedi'i thrwyddedu o dan y Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus er bod peidio â chael trwydded yn anghyfreithlon. Ar ôl iddi ddechrau dangos arwyddion o ymddygiad ymosodol – sy'n ddatblygiad cyffredin mewn primatiaid wrth iddynt aeddfedu – ac wedi brathu rhywun a dianc sawl gwaith, cysylltodd ei pherchennog â Wild Futures i roi "bywyd gwell" iddi.

Dangosodd prawf ysgarthol fod parasitiaid strongoloides yn bresennol cyn i Boo Boo gyrraedd y lloches arbenigol. Roedd hi dros ei phwysau oherwydd nad oedd wedi cael cyfle mae'n siwr i wneud digon o ymarfer corff yn ei chawell bychan heb sôn am y ffaith ei bod yn cael ei bwydo â deiet a oedd yn cynnwys llawer o ffrwythau, yn ogystal â llaeth, caws a melysion llawn siwgr dynol fel malws melys a lolipops – wedi'u hargymell gan y person a'i gwerthodd. Roedd hi'n ymddwyn yn niwrotig, gan fynd yn ôl ac ymlaen a throï ei phen yn ailadroddu, a hynny o bosibl wedi digwydd oherwydd diflastod a straen difrifol neu amgylchedd anaddas, ac roedd hi wir yn brin o sgiliau cymdeithasol. Roedd ei chael i integreiddio â'r mwnciod eraill yn anodd iawn ac fe gymerodd fisoedd lawer oherwydd na chafodd y cyfle i ryngweithio â'i math ei hun o oedran ifanc. Yn ffodus, mae Boo Boo bellach yn byw mewn grŵp cymdeithasol ac mae ganddi nifer o ffrindiau – mae ei sgiliau cymdeithasol yn parhau i wella.

<sup>20</sup> Daw'r ffigyrau hyn o YouGov Plc ein nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,036 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 19 a 22 Awst 2015. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).  
<sup>21</sup> [www.gov.uk/guidance/cites-controls-import-and-export-of-protected-species](http://www.gov.uk/guidance/cites-controls-import-and-export-of-protected-species)



# Primatiaid yn Anifeiliaid Anwes

## PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae primatiaid sy'n anifeiliaid anwes yn gallu byw hyd at 46 mlynedd sydd yn ymrwymiad enfawr, gydol oes, ond wrth iddynt aeddfedu maent weithiau yn gallu mynd yn ymosodol. Mae eu hanghenion o ran amgylchedd yn gymhleth gan eu bod angen llety wedi'i gynllunio'n arbennig iddynt, a phroblem gyffredin yw primatiaid yn cael eu cadw dan do, mewn amgylchedd anaddas neu mewn cewyll bychain sy'n gallu arwain at ymddygiad annormal a hunan-niweidio. Mae deiet amhriodol hefyd yn bryder mawr gan fod hyn, ynghyd â pheidw gweld digon ar yr haul, yn gallu arwain at glefydau maeth ac mae diffygion clefyd metabolig yr esgyrn yn broblem iechyd gyffredin. Mae problemau iechyd eraill yn cynnwys clefydau, megis y frech goch a herpes, sy'n gallu lledaenu i bobl ac oddi wrthynt, ac yn bosibl iawn mae milfeddygon arbenigol sydd â gwybodaeth am brimatiaid wedi'u lleoli ymhell i ffwrdd ac yn ddrud. Efallai mai'r broblem amlaf fodd bynnag, yw'r ffaith fod pobl yn tybio'n anghywir bod eu magu â llaw yn gwneud primatiaid yn ddof. Mae'n rhaid i brimatiaid gael eu magu gan eu mam – mae eu gwahanu yn rhy gynnar yn achosi dioddefaint eithafol – ac mae cadw mwnci ar ei ben ei hun yn hollol annerbyniol gan eu bod yn anifeiliaid cymdeithasol iawn. Nid yw cwmni pobl yn gallu cymryd lle primatiaid eraill. Mae primatiaid yn anifeiliaid deallus iawn sydd ag anghenion eithriadol o gymhleth nad yw amgylchedd ein tai a'n cartrefi ni yn gallu eu diwallu yn ôl barn y rhan fwyaf o fudiadau lles ac arbenigwyr. Mae'n galonddid gwybod bod 72 y cant o'r bobl a holwyd yng Nghymru yn cefnogi gwaharddiad ar gadw pob mwnci a phrimat yn anifail anwes.<sup>20</sup>

## Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976

Rheoliadau Rheoli Masnachu mewn Rhywogaethau mewn Perygl (Gorfodi) 1997<sup>21</sup>

## Y SEFYLLFA BRESENNOL



Llun: Mark Fairhurst / Llyfrgell Llundain RSPCA

Yn ôl gwaith ar y cyd rhwng yr RSPCA a Wild Futures, amcangyfrifir bod tua 120 o brimatiaid wedi'u cadw'n breifat yng Nghymru.<sup>22</sup> Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar gyfrifiadau a wnaed ar ddiffyg cydymffurfio â'r Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus a'r ffaith fod llawer ohonynt yn farmosetiaid (nad oes angen trwydded y Ddeddf hon arnynt), ond mae'n anodd iawn gwybod faint ohonynt sydd yna. Bu i arolwg barn gan YouGov<sup>20</sup> a gomisiynwyd gan yr RSPCA ganfod fod nifer fach o'r ymatebwyr (1%)

yn berchen neu wedi bod yn berchen ar fwnci, ond nid oedd Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru<sup>23</sup> wedi canfod unrhyw gartrefi (o'r 3,200 a holwyd) a oedd yn berchen ar fwnci; serch hynny bob blwyddyn mae'r RSPCA yn derbyn ychydig o alwadau gan aelodau pryderus o'r cyhoedd mewn perthynas â mwnciod yn anifeiliaid anwes yng Nghymru.

O styried sut mae'r anifeiliaid hyn yn cael eu cadw ac ymhell o lygad y cyhoedd, efallai nad yw'n syndod nad oes rhagor o gwynion. Mae hefyd yn annhebygol iawn y gallai aelod o'r cyhoedd heb hyfforddiant manwl adnabod ymddygiad pryderus neu gyflwr iechyd gwael mewn mwnci. Er na wyddys maint y fasnach, gan nad yw wedi'i rheoleiddio, mewn cyfnod astudiaeth o fis<sup>24</sup> yn edrych ar bedwar safle yn unig ar-lein (UK Classifieds, FreeAds, Gumtree a Reptile Trader) gwelwyd 11 hysbyseb gwahanol am fwnciod ar werth yng Nghymru. O ddefnyddio'r ffigwr hwn yn sail i gyfnod o 12 mis, mae'r niferoedd hyd yn oed yn fwy arwyddocaol a gallai fod ymhell dros gant – sydd ynddo'i hun yn awgrymu bod yr amcangyfrif ar berchnogaeth primatiaid yng Nghymru yn rhy isel o bell ffordd.

**Mae 72% o'r rhai a holwyd yng Nghymru yn cefnogi gwahardd cadw unrhyw fath o fwnci fel anifail anwes.**

## Argymhelliad yr RSPCA

Cyflwynodd Defra God Ymarfer ar gyfer cadw primatiaid yn breifat yn Lloegr. Er bod llawer iawn o wybodaeth bwysig yn y Cod Ymarfer hwn, mae'r RSPCA a llawer o grwpiau lles anifeiliaid eraill – gan gynnwys rhai sy'n arbenigo mewn primatiaid – yn credu'n gadarn na ddylid cael dim byd llai na gwaharddiad llwyr ar gadw unrhyw fath o fwnci yn anifail anwes. Byddai Cod Ymarfer wedyn yn berthnasol i brimatiaid sydd eisoes yn cael eu cadw, pan fydd safonau trwyddedu llym ac arolygu rheolaidd gan arbenigwyr (nad ydynt yn gysylltiedig â'r fangre) yn gallu sicrhau bod lles yr anifeiliaid yn uchel.

<sup>22</sup> Yr amcangyfrif yw 5,000 ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

<sup>23</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy>

<sup>24</sup> Data arolwg ar-lein wedi'i gasglu gan Positif Politics rhwng 3 a 28 Awst 2015 ar ran RSPCA Cymru.



## Astudiaeth achos

### Draig farfog wedi'i phostio yn ddirugaredd drwy'r post

Yn Awst 2015 postiodd un perchennog creulon ddraig farfog i siop ymlusgiaid yng Nghaerdydd. Meddai Prif Arolygydd Dros Dro yr RSPCA Selina Chan: "Byddai'r creadur druan hwn wedi bod yn hynod ofnus mewn bocs am gyfnod o amser anhysbys. Mae anfon ymlusgiad byw trwy'r gwasanaeth post wedi'i wahardd oherwydd ei fod yn beryglus i'w hiechyd. Nid yw anfon anifail fel hyn yn ystyried eu hangenion a phetai'r parcel wedi cael ei ollwng neu ei ysgwyd, gallai wedi ei anafu neu ei ladd. Yn ogystal, byddai'r ymlusgiad wedi gallu oeri am gyfnod hir o amser, a byddai'n anodd iddo wella ar ôl hynny, yn enwedig os oes ganddo broblemau iechyd eisoes." Mae'r achos hwn yn dangos faint o wybodaeth sydd ei hangen i fodloni anghenion rhywogaethau anarferol – mae dreigiau barfog yn endothermig sef nid ydynt yn gallu cynhyrchu eu gwres eu hunain ac felly pan gyrhaeddodd y siop roedd mewn cyflwr difrifol gan ei fod hefyd yn denau, wedi'i ddadhydradu ac yn wan. Yn ffodus daethpwyd o hyd i'r anifail mewn pryd ac aethpwyd ag ef at arbenigwr egsotig; unwaith y bydd wedi gwella bydd ar gael i'w fabwysiadu.



<sup>25</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy>

<sup>26</sup> Daw'r ffigurau hyn o YouGov Plc oni nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,036 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 19 a 22 Awst 2015. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

# Anifeiliaid Anwes Egsotig

## PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Yn affodus mae'r RSPCA yng Nghymru yn gweld esgeulustod eang ar anifeiliaid anwes egsotig. I lawer o bobl mae anifail egsotig yn ormod o ymrwymiad a hynny i'w weld yn nifer cynyddol yr anifeiliaid egsotig sy'n cael eu gadael a'u rhoi i ganolfannau anifeiliaid ledled y wlad. Mae'n anodd iawn gwybod faint o anifeiliaid anwes egsotig sy'n cael eu cadw yng Nghymru, ond mae Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru<sup>25</sup> yn rhestru bod y ganran sy'n berchen ar adar yn chwech y cant ac ymlusgiaid yn ddau y cant, sy'n cyfateb yn fras i arolwg barn YouGov<sup>26</sup> i'r RSPCA a ganfu bod naw y cant o gartrefi yn berchen neu wedi bod yn berchen ar barot, neidr, madfall neu fwnci – er nad oedd arolwg Llywodraeth Cymru ei hun wedi dod o hyd i unrhyw un oedd yn berchen ar brimatiaid.

Mae'r diffyg rheoleiddio ar brynu a gwerthu'r anifeiliaid cymhleth hyn hefyd yn parhau i fod yn destun pryder mawr. Mewn cyfnod astudiaeth o fis<sup>27</sup> yn edrych ar bedwar safle yn unig ar-lein (UK Classifieds, FreeAds, Gumtree a Reptile Trader) daethpwyd o hyd i 268 o hysbysebion gwahanol yn gwerthu madfallod, parotiaid, nadroedd a mwncïod yng Nghymru. O ddefnyddio'r ffigwr hwn yn sail i gyfnod o flwyddyn, byddai'r niferoedd yn y miloedd. Yn ddi-ddorol, o'r rheiny a atebodd arolwg YouGov,<sup>26</sup> roedd y parot, madfall neu neidr a brynwyd yn fwyaf diweddar ganddynt wedi cael eu prynu o siop anifeiliaid anwes (58 y cant) gyda dim ond nifer bach mewn cymhariaeth wedi dod o ffrindiau (22 y cant), elusennau lles (7 y cant) neu'r rhyngwyd (3 y cant). Mae hyn fel petai'n awgrymu bod canlyniadau'r monitro hysbysebion anifeiliaid anwes ar-lein ond yn gyfran fach iawn o'r anifeiliaid anwes egsotig sy'n cael eu prynu a'u gwerthu yng Nghymru.

## Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976

Deddf Anifeiliaid Anwes 1951

Rheoliadau Rheoli Masnachu mewn Rhywogaethau mewn Perygl (Gorfodi) 1997<sup>28</sup>

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae'r RSPCA wedi gweld cynnydd yn nifer yr anifeiliaid egsotig yn ein canolfannau ac rydym yn derbyn mwy o alwadau ynghylch eu lles. Yn benodol, mae gan ymlusgiaid yn aml broblemau lles difrifol. Yn 2014, roedd yr RSPCA wedi codi 279 o ymlusgiaid ac amffibiaid egsotig strae ledled Cymru a Lloegr, llawer ohonynt yn siŵr o fod wedi cael eu gadael gan y perchnogion. Yn 2014, yng Nghymru, derbyniwyd 407 o gŵynion am greulondeb mewn perthynas â physgod, adar a mamaliaid egsotig, a rhwng 2012 a 2014, cafodd naw diffynnydd yng Nghymru eu herlyn gan yr RSPCA am droseddau yn ymwneud ag anifeiliaid anwes egsotig gan gynnwys dreigiau barfog, geccoaid a nadroedd.

Mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r broblem fawr hon mae'r RSPCA wedi hyfforddi 10 o Swyddogion Egsotig ledled Cymru a Lloegr sydd â gwybodaeth arbenigol ar hwsmonaeth ymlusgiaid ac amffibiaid. Maent yn aelodau o Arolygiaeth yr RSPCA ac wedi'u paratoi i ddelio â chwynion ac i gasglu anifeiliaid egsotig ac i roi cyngor i staff eraill. Yn ogystal â hyn, mae deunyddiau newydd wrthi'n cael eu datblygu sy'n tynnu sylw at anghenion lles cymhleth anifeiliaid anwes egsotig.

## Argymhelliaid yr RSPCA

Byddai arolygon cartrefi gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn elwa o holi llawer mwy o fanylion ynghylch rhywogaethau anifeiliaid anwes egsotig penodol, gan gynnwys gofyn o ble maent wedi dod, a byddai hynny'n galluogi targedu adnoddau yn well i addysgu darpar berchenogion ynghylch anghenion cymhleth ac addasrwydd anifeiliaid egsotig fel anifeiliaid anwes. Da o beth hefyd fyddai mwy o arian i ymchwilio i'r masnachu yn yr anifeiliaid hyn, ynghyd â sut y gallai rheoliadau a chodau ymarfer weithio, yn ogystal â chynnwys y mater pwysig hwn mewn cynlluniau Fframwaith Lechyd a Lles Anifeiliaid yn y dyfodol.

**Mae 9% o gartref i yn berchen neu wedi bod yn berchen ar barot, neidr, madfall neu fwnci.**

<sup>27</sup> Data arolwg ar-lein wedi'i gasglu gan Positif Politics rhwng 3 a 28 Awst 2015 ar ran RSPCA Cymru.

<sup>28</sup> [www.gov.uk/guidance/cites-controls-import-and-export-of-protected-species](http://www.gov.uk/guidance/cites-controls-import-and-export-of-protected-species)



# Astudiaeth achos

## Ymgyrch Morpheus

Yn sgil ymchwiliad i droseddau bywyd gwyllt gan Lined Gweithrediadau Arbennig yr RSPCA, mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru, datgelwyd bod dyn o'r Gogledd wedi bod yn hela mamaliaid gwyllt â chŵn yn ogystal ag annog anifeiliaid i ymladd. Canfuwyd bod gan un o'i naw ci, Celt, greithiau newydd a rhai hŷn wedi'u hachosi drwy ymladd â llwynogod. Roedd ffrind i'r dyn – nad oedd yn filfeddyg – wedi staplo clwyf ar ben ci arall, sef clwyf wedi'i achosi yn fwy na thebyg gan ffrwgdw â moch daear neu lwynogod. Nid oedd y dyn erioed wedi mynd â'i gŵn at filfeddyg ond yn hytrach roedd ganddo becyn milfeddygol oedd yn cynnwys chwistrelli, nodwyddau, penisilin a meddyginiaethau eraill, rhai ohonynt yn feddyginiaeth 'presgripsiwn yn unig' sy'n codi cwestiynau ynghylch sut y daethant i fod ym meddiant y diffynnydd. Daethpwyd o hyd i luniau fideo oedd yn dangos mab pum-mlwydd-oed y dyn yn dal cwningen farw yn yr awyr i ddau gi ei rhwygo, tra clywir oedolyn y tu ôl i'r camera yn eu hannog. Roedd clip arall yn dangos y plentyn yn dal cenau llwynog, wedi'i ddal mewn coler, tra bod y dyn yn annog ei gŵn i fod yn ymosodol tuag ato. Honnai'r dyn ei fod wedi magur' cenau ei hun.

Roedd gweithio mewn partneriaeth wedi arwain at ddal yr unigolion yn yr achos hwn, fel y dywedodd PC Eryl Lloyd, o Dim Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru: "Rydym yn falch bod ein gwaith gyda'r RSPCA ar yr ymchwiliad hwn wedi arwain at ganlyniad llwyddiannus yn y llys. Ni chaiff y math hwn o ymddygiad ei oddef yn ein cymuned a byddem yn cydweithio'n syth â swyddogion yr RSPCA unwaith eto os bydd angen."



Llun: RSPCA



Llun: RSPCA



Llun: RSPCA



Llun: RSPCA

<sup>29</sup> Nid yw data erlyn lleol gan awdurdodau ar heddlu ar gael ar hyn o bryd, ond mae'n debygol o fod yn gymharol fach eu nifer oherwydd gweithgarwch gorfodi cyfyngedig yn y maes hwn a phroblemau canfod y troseddau hyn.  
<sup>30</sup> [www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/wildlife/captivity/licences](http://www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/wildlife/captivity/licences)

# Erlyniadau

## PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Erlyn fel arfer yw'r dewis olaf mewn achosion o greulondeb i anifeiliaid a hynny ar ôl rhoi cynnig ar bob llwybr posibl arall, gan gynnwys cyngor a chymorth i wella lles anifeiliaid – sy'n cynnwys rhoi amser i bobl wella eu safonau gofal. Rhwng 2012 ac 2014, llwyddodd yr RSPCA<sup>29</sup> i gael 20 o euogfarnau creulondeb ac roedd 35 o anifeiliaid yn destun rhybuddiad. Rhoddwyd rhybuddion hefyd mewn perthynas â 648 o anifeiliaid ac roedd y rhain yn cynnwys 37 gwahanol math o rywogaethau egsotig a oedd yn cael eu cadw fel anifeiliaid anwes. Pan fydd sefyllfaoedd lles yn dod at sylw'r RSPCA, ymddengys bod perchnogion yn barod i dderbyn cyngor, ond nid yw'n hysbys faint yn union o droseddau a wneir yn erbyn lles anifeiliaid mewn perthynas â rhywogaethau egsotig. Oherwydd natur arbenigol iawn gofalu amdanynt, bydd llawer yn marw yn nwylo eu perchennog ac ni fydd hyn byth yn dod i'r amlwg.

Mae'r sefyllfa o ran anifeiliaid gwyllt sy'n byw yn rhydd yn gallu bod yn bur wahanol, fodd bynnag, oherwydd yn aml nid oes fawr o ddewis neu dim dewis arall o gwbl heblaw am erlyn pan fo trosedd wedi'i chyflawni yn erbyn anifail gwyllt, megis gweithred dreisgar fwriadol. Serch hynny, mae dod i wybod am droseddau o'r fath a chasglu digon o dystiolaeth i erlyn y troseddwr yn gymhleth ac yn wahanol i achos anifeiliaid anwes lle mae'r perchennog yn aml yn bresennol. Mae'r gyfraith yn ymwneud â bywyd gwyllt yn gallu bod yn berthnasol i anifeiliaid gwyllt sy'n byw yn y gwyllt neu mewn caethiwed. I gadw anifeiliaid gwyllt mewn caethiwed, mae'n bosibl iawn fod yn rhaid i'r perchennog wneud cais am drwydded,<sup>30</sup> ond mae hyn yn rhywbeth arbenigol iawn ac nid yn rhywbeth y dylai unrhyw un heb wybodaeth a hyfforddiant priodol ei wneud. Mae lluo o ddeddfwriaeth gymhleth yn rheoli anifeiliaid gwyllt sy'n byw yn rhydd a byddai'n fuddiol iawn eu crynhoi yn un Bil Bywyd Gwyllt fel y mae'r RSPCA wedi ymgyrchu drosto.

## Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Deddf Gwarchod Moch Daear 1992

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, fel y'u diwygwyd yn 2012

Deddf Ceirw 1991

Deddf Cadwraeth Morloi 1970

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae trosedd yn erbyn bywyd gwyllt yn digwydd ar sawl ffurf, o fasnachu mewn rhywogaethau sydd mewn perygl i bentsian/herwhele a hela. Mae blaenoriaeth arbennig yn cael ei rhoi ar y troseddau hyn gan yr heddlu a hynny'n rhoi modd cael rhywfaint o adnoddau pwrpasol, ond er hynny, mae adnoddau yn dal yn brin. Mae'r RSPCA â'r heddlu yn cydweithio'n agos ar achosion o droseddau yn erbyn bywyd gwyllt a hynny'n galluogi canfod ac arestio rhagor o droseddwr – mae hyn o bosibl yn adlewyrchiad teg o'r ffaith y byddai 45 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru yn cysylltu â'r heddlu yn gyntaf petaent yn gweld person yn bod yn greulon i anifail gwyllt a byddai 41 y cant yn dweud wrth yr RSPCA yn gyntaf.<sup>31</sup>

Derbyniodd yr RSPCA 247 o gŵynion yn 2014 ynghylch troseddau yn erbyn bywyd gwyllt, ac aethpwyd ag un o'r rhain, yn ymwneud â mochyn daear, yn ei blaen i erlyniad llwyddiannus. Nid oedd data'r heddlu ar gyfer Cymru ar gael ar adeg ysgrifennu hwn, fodd bynnag mae adroddiad yn y gorffennol ar gyfer 2012<sup>32</sup> yn cofnodi bod pedwar llu heddlu yng Nghymru wedi derbyn cyfanswm o 588 adroddiad am ddigwyddiadau yn ymwneud â throseddau bywyd gwyllt yn y flwyddyn honno. Nid yw'r adroddiad o 2012 yn nodi faint o'r rhain a arweiniodd at unrhyw erlyniadau.

## Argymhelliad yr RSPCA

Gwnaed llawer iawn o waith rai blynyddoedd yn ôl i ddod â gorfodwyr at ei gilydd trwy Bartneriaeth ar gyfer Gweithredu i Atal Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt yng Nghymru. Byddai'r gwaith hwn yn elwa o gael pwyslais o'r newydd gan Lywodraeth Cymru i adfer a chydlynu cyfarfodydd y grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru (gan gynnwys cyfraniad gan waith ymchwilio ac erlyn yr RSPCA), ac yn bwysicach i gyhoeddi strategaeth newydd<sup>33</sup> i gynnwys gwaith partneriaeth a chasglu gwylbodaeth a data yn ganolog ar gyfer Cymru.

**Byddai 45% o'r cyhoedd yng Nghymru yn cysylltu â'r heddlu yn gyntaf petaent yn gweld person yn bod yn greulon i anifail gwyllt tra byddai 41% yn dweud wrth yr RSPCA yn gyntaf.<sup>31</sup>**

<sup>31</sup> Daw'r ffigurau hyn o YouGov Plc oni nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,036 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 19 a 22 Awst 2015.

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

<sup>32</sup> Adolygiad ar Orfodi Amgylcheddol a Bywyd Gwyllt Cymru 2012.

<sup>33</sup> Lanswyd y strategaeth bresennol yn 2011 ac mae'n dod i ben eleni, 2015.






Llun: RSPCA Cymru



Llun: Simon Pain / Llyfrgell Lluniau'r RSPCA



Llun: RSPCA Cymru



Llun: RSPCA Cymru



Llun: RSPCA Cymru



Llun: RSPCA Cymru

<sup>34</sup> Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Mannau Glanach, Mwy Diogel ar gyfer ein Cymunedau, Cyfarfod Llawn 21 Ebrill 2015. <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/rop.aspx?meetingid=3158&language=en&c=Record%20of%20Proceedings>  
<sup>35</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/post-implementation-review-single-use-carrier-bag-charge-wales/?skip=1&lang=cy>



# Sbwriel

## PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Derbyniodd yr RSPCA yng Nghymru bron i 300 o alwadau yn 2014, sef ffigwr tebyg i 2013, oll yn ymwneud â bywyd gwyllt oedd mewn angen oherwydd sbwriel wedi'i ollwng yn ddiotal neu'n fwrriadol. Gan fod milfeddygon neu fudiadau bywyd gwyllt eraill yn ymdrin â rhai digwyddiadau, ac nad yw llawer o anifeiliaid gwyllt sydd wedi'u hanafu byth yn cael eu canfod, ni wyddys gwir faint y broblem ar effaith ar fywyd gwyllt. Elyrch yw'r anifeiliaid yr effeithir arnynt fwyaf yng Nghymru ac fel arfer mae hyn wedi'i achosi gan sbwriel genweirio neu bysgota.


## Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid 2006  
Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990  
Deddf Cymdogaethau Glân ar Amgylchedd 2005

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â sbwriel yn cael ei ollwng drwy ariannu llawer iawn o waith yn y maes trwy bartneriaid megis Cadw Cymru'n Daclus a Taclo Tipio Cymru, gydag adroddiadau o ostyngiad o bump y cant wedi hynny mewn tipio anghyfreithlon.<sup>34</sup> Arloesol hefyd oedd gwaith Llywodraeth Cymru yn cyflwyno codi tâl am fagiâu siopa untro yn 2011, gan arwain at ostyngiad o 71 y cant yn eu defnydd yn y tair blynedd ers hynny.<sup>35</sup> Er bod datblygiadau o'r fath i'w croesawu'n fawr, yn anffodus nid yw hyn wedi arwain at ostyngiad yn y galwadau i'r RSPCA ynghylch bywyd gwyllt wedi'u heffeithio gan sbwriel. Mae'n bosibl iawn fod neges ymwybyddiaeth y cyhoedd yn gweithio'n dda i raddau wrth dynnu sylw at yr effaith ehangach ar yr amgylchedd a goroesiad rhai rhywogaethau, ond ychydig iawn sy'n cael ei ddweud am achosi anafiadau a dioddefaint i anifeiliaid unigol, a hyd yn oed yn llai yn cael ei ddweud am y mudiadau hynny sy'n casglu ac yn trin yr anifeiliaid hynny, ar adnoddau sydd eu hangen i wneud gwaith o'r fath.

Mae'r RSPCA hefyd wedi ymgyrchu ers tro byd yn erbyn defnyddio llusernau awyr<sup>36</sup> sy'n berygl i fywyd gwyllt, anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes, ond y llun sydd wedi dal sylw'r rhan fwyaf o bobl ar draws y byd yw'r darlun o'r llusern wedi lladd tylluan wen (gyferbyn). Roeddem felly yn falch iawn pan ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at yr awdurdodau lleol ym mis Hydref 2013 yn eu hannog i gyflwyno gwaharddiad gwirfoddol. Cefnogir hyn hefyd gan ystod o fudiadau – o undebau ffermio i gyrff amgylcheddol. Cynhaliwyd ymgyrch gyhoeddus gennym a chododd nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru a oedd wedi gweithredu gwaharddiad o 4 i 13 ohonynt.<sup>37</sup>



**Mae 59% o'r cyhoedd yng Nghymru yn cefnogi gwaharddiad ar lusernau awyr.<sup>38</sup>**

Cafwyd mwy na 1,000 o weithredoedd ymgyrchu gan gefnogwyr yr RSPCA i geisio cael awdurdodau lleol i wahardd llusernau awyr. Ym mis Hydref 2013 dim ond pedwar cyngor yng Nghymru oedd wedi gwahardd llusernau awyr. O ganlyniad i'r ymgyrch, erbyn mis Medi 2015, mae 13 o'r 22 bellach wedi gweithredu gwaharddiad.


## Argymhelliad yr RSPCA

Er bod sawl ymgyrch ar raddfa fawr wedi'i chynnal yn ymwneud â chadwraeth ar amgylchedd, mae dybryd angen gwell addysg gyhoeddus ynghylch effaith sbwriel bob blwyddyn yng Nghymru ar les anifeiliaid unigol. Gellid talu am beth o hyn drwy'r arian sy'n cael ei godi o'r ardoll ar fagiâu plastig. Hyd nawr, nid yw'r arian hwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer yr anifeiliaid y mae sbwriel yn effeithio arnynt. O gofio nad yw gweithgarwch uniongyrchol â lles anifeiliaid yn gymwys am gyllid cyhoeddus ac o ystyried yr effaith y mae sbwriel yn ei gael ar les anifeiliaid unigol, dylai'r arian fynd tuag at hynny cyn cadwraeth. Dylai'r naw awdurdod lleol sy'n weddill fabwysiadu'r gwaharddiad ar lusernau, er hynny mae hefyd yn bwysig fod Llywodraeth Cymru yn ystyried gwahardd llusernau mewn unrhyw Fesur Bywyd Gwyllt arfaethedig gan mai dyna'r unig ffordd y gellir eu gwahardd ar dir preifat.

<sup>36</sup> Cyfeirir atynt weithiau fel llusernau 'Tseiniaidd'.

<sup>37</sup> Ym mis Medi 2015.

<sup>38</sup> Daw'r ffigyrau hyn o YouGov Plc oni nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,036 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 19 a 22 Awst 2015. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).



## Astudiaeth achos

### Ci wedi'i ddal mewn magl

Ym mis Hydref 2014 sylwodd aelod o'r cyhoedd ar gi wedi'i ddal mewn magl mewn glaw mawr wrth ymyl coedwig ger y clwb golff ym Maesycwmmwr, Hengoed. Ar ôl torri'r fagl i dynnu'r ci allan, aeth ag ef adref ac yna ffonio'r RSPCA. Roedd y ci wedi'i gaethiwo mewn magl llwynog, ac felly yn hollol gyfreithiol, ond serch hynny, roedd y fagl wedi dal y ci truan hwn. Roedd y profiad echrydus wedi dweud ar y ci ac aethpwyd ag ef at filfeddyg i wella. Yn ffodus ar ôl apêl yn y wasg, daeth yr RSPCA o hyd i berchennog y ci coll a chafwyd aduniad hapus.

<sup>39</sup> Adroddiad Gweithgor Annibynnol ar Faglau, Defra, Awst 2005.

<sup>40</sup> Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad – WAQ66377, Chwefror 2014.

<sup>41</sup> <http://llyw.cymru/about/cabinet/decisions/2015/jul-sep/environment/re1137/?skip=1&lang=cy>

# Maglau

## PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae maglau yn cynnwys gosod cebl wedi'i angori a chortyn â chwlm i ddal anifeiliaid gwyllt fel llwynogod neu gwingod o amgylch eu gwddf neu'r corff. Mae eu symrlwydd a chost isel eu cynhyrchu yn golygu eu bod yn cael eu hystyried yn ddull rheoli pla effeithiol iawn gan y diwydiant. Mae mudiadau anifeiliaid, fodd bynnag, yn gwrthwynebu'n gryf eu defnyddio oherwydd pryderon am les yr anifeiliaid sydd wedi'u dal ac oherwydd nifer y rhywogaethau nad ydynt yn darged sy'n cael eu dal. Yn ôl y gyfraith yng Nghymru mae'n rhaid i'r maglau hyn redeg yn rhydd (mae maglau sy'n cloi eu hunain wedi'u gwahardd) sef eu bod yn llacio ar ôl i'r anifail stopio tynnu, ond bod yr anifail yn dal yn gaeth hyd nes y daw rhywun at y fagl i'w ladd neu ei ryddhau. Tan hynny, gall yr anifail gael ei ladd gan ysglyfaethwyr eraill neu ddioddef marwolaeth araf, arteithiol o ganlyniad i anaf neu newyn.

O dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, rhaid i bobl sy'n defnyddio magl gymryd pob gofal rhesymol i atal niwed i anifeiliaid a warchodir, ond nid yw rhagofalon yn rhoi unrhyw sicrwydd yn erbyn digwyddiad o'r fath. Mae hefyd yn ofyniad cyfreithiol fod yn rhaid mynd i edrych ar y maglau o leiaf unwaith pob dydd, ond o weld pa mor ddifrifol yw'r anafiadau a achoswyd i lawer o anifeiliaid, ymddengys nad yw llawer o bobl yn dilyn hyd yn oed y gofyniad bychan hwn. Mae'n anghyfreithlon gosod maglau i ddal adar, ceirw neu foch daear, eto yn rheolaidd iawn mae mamaliaid nad ydynt yn darged, gan gynnwys anifeiliaid anwes, yn cael eu dal oherwydd nad yw'r dyfeisiau hyn yn gwahaniaethu rhwng anifeiliaid. Y rhywogaethau nad ydynt yn darged sy'n cael eu dal amlaf yw cathod ac mae'r RSPCA yn delio â nifer o'r achosion hyn yng Nghymru bob blwyddyn. Hyd yn oed o gadw at arferion da, mae amcangyfrifon yn awgrymu nad yw nifer y rhywogaethau nad ydynt yn darged sy'n cael eu dal mewn magl yn debygol o ostwng o dan 40 y cant.<sup>39</sup>

## Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a

Rhywogaethau 2010 wedi'u diwygio yn 2012

Deddf Ceirw 1991

Deddf Gwarchod Moch Daear 1992

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae'r defnydd ar faglau yng Nghymru yn sylweddol. Er enghraifft, yn dibynnu ar adeg y flwyddyn, gall mwy na 50,000 o faglau llwynog<sup>40</sup> gael eu gosod yng Nghymru ac mae hyn yn pwysleisio maint y broblem hon. Cyhoeddodd yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd ar Amgylchedd eu hastudiaeth i faint o ddefnydd ar wneir ar faglau a pha mor drugarog yw maglau yng Nghymru a Lloegr, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y "...gwaith ymchwil wedi dangos bod rhai o'r anifeiliaid sy'n cael eu dal nawr mewn maglau yn dioddef yn ddiangen o ganlyniad" a bod yr adroddiad hefyd wedi tynnu sylw at ddiffyg cydymffurfio.<sup>41</sup> Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb drwy gyflwyno Cod Ymarfer<sup>42</sup> gwirfoddol, sydd wedi'i ddatblygu ar y cyd ag ystod o randdeiliaid. Er bod y Cod yn cydnabod llawer o'r materion lles sy'n peri pryder, mae rhai mudiadau fel yr RSPCA ac OneKind yn credu mai dim ond gwaharddiad ar ddefnyddio maglau sy'n dderbyniol mewn cymdeithas sy'n poeni am les anifeiliaid. Caiff hyn gefnogaeth gref y cyhoedd, gyda 72 y cant yn cefnogi gwahardd defnyddio pob math o fagl ar bob anifail yng Nghymru.<sup>43</sup>

### Argymhelliad yr RSPCA

Dim ond gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio maglau yng Nghymru fyddai'n bodloni disgwyliadau'r cyhoedd ac a fyddai'n sicrhau bod safonau lles uchel i anifeiliaid yn cael eu hadlewyrchu yn ein cyfreithiau. Byddai gwahardd eu defnyddio yn sicrhau nad yw rhywogaethau targed yn dioddef a hefyd yn bwysig yn dileu'r posibilrwydd o rywogaethau nad ydynt yn darged yn cael eu dal. Gellid gwneud hyn fel rhan o'r gwaith diwygio deddfwriaeth bywyd gwyllt y soniwyd amdano eisoes yn yr adroddiad hwn. Er nad yw unrhyw fesur heblaw am waharddiad yn dderbyniol i fudiadau lles anifeiliaid, mae'n werth nodi bod yr Alban wedi cyflwyno system tag ar gyfer labelu maglau a rhaid i ddefnyddwyr gael eu hachredu drwy hyfforddiant ffurfiol. Mae hyn yn welliant ar y sefyllfa yng Nghymru, ond serch hynny nid yw'r mesurau yn sicrhau lles anifeiliaid.

**Mae 72% yn cefnogi gwahardd maglau i bob anifail.**

<sup>42</sup> <http://gov.wales/newsroom/environmentandcountryside/2015/animal-welfare-at-the-heart-of-new-snares-code/?skip=1&lang=cy> ac mae copiau o'r cod ar gael yn <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/wildlife-management/foxes/?skip=1&lang=cy>


<sup>43</sup> Daw'r ffigyrau hyn o YouGov Plc oni nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,036 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 19 a 22 Awst 2015. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).





**Pwy fyddai'r cyhoedd yng Nghymru yn cysylltu â nhw'n gyntaf petaent yn gweld anifail gwyllt mewn angen.<sup>44</sup>**

Yr RSPCA	59%
Mudiad/elusen lleol lles anifeiliaid	13%
Y Frigad Dàn	7%
Yr Heddlu	5%
Milfeddygfa	5%
Awdurdodau lleol	3%
Arall	1%
Ddim yn gwybod	5%
Amherthnasol – fyddwn i ddim yn cysylltu ag unrhyw un yn y sefyllfa hon	2%



# Achub, Gwella a Rhyddhau

## PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae effaith pobl ar rywogaethau nad ydynt yn ddof yn amrywio, fel y dangoswyd drwy gydol yr adroddiad hwn, ond ym Mhrydain, mae bywyd gwyllt 'sy'n byw yn rhydd' gan amlaf yn cael ei ystyried yn fater cadwraeth neu gynaliadwyedd, gyda lles anifeiliaid yn cael ei ddiystyrru i raddau helaeth mewn rhaglenni amddiffyn a ffrydiau ariannu. Mae llawer o fudiadau lles anifeiliaid, gan gynnwys yr RSPCA, yn gorfod ymdopi â chost enfawr casglu, gwella ac ailryddhau bywyd gwyllt clwyfedig y genedl. I'r rhan fwyaf o bobl, mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo heb iddynt sylwi i raddau helaeth hyd nes eu bod nhw eu hunain yn gweld anifail gwyllt mewn angen. Gan fod cyn lleied o sylw cyhoeddus yn cael ei roi i waith yn y maes hwn, nid oes llawer y gellir ei wneud i'w fesur yn ei gyfarwydd a ninnau wedyn yn gwybod llai pa weithredoedd dynol sy'n achosi dioddefaint i anifeiliaid gwyllt.

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

Yn aml, anifeiliaid anwes sy'n cael sylw'r wasg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o ran lles anifeiliaid ac eto mae'r RSPCA yn casglu, achub, gwella ac yn rhyddhau cannoedd o anifeiliaid gwyllt bob blwyddyn – yn 2014 roedd hyn yn gyfanswm o 3,724 yng Nghymru. O'r rheini, cafodd 585 o anifeiliaid gwyllt wedi'u hanafu, yn sâl neu'n amddifad eu derbyn i gyfleusterau bywyd gwyllt yr RSPCA i gael gofal, eu hailsefydlu a'u rhyddhau yn y pen draw yn ôl i'r gwyllt. Mae'r gwaith hanfodol ac arbenigol iawn hwn yn haeddu cydnabyddiaeth ynddo'i hun.

Er ei bod yn annhebygol y gellir gwybod yn union beth yw ehangder a maint y gwaith, mae'n galonogol gweld o arolwg y byddai bron i dri o bob pum oedolyn yng Nghymru<sup>44</sup> yn cysylltu â'r RSPCA yn gyntaf pe byddent yn gweld anifail gwyllt angen ei achub, er bod hyn wrth gwrs yn rhoi mwy o faich ar adnoddau'r RSPCA ac nid yw bob amser yn bosibl ymateb i bob galwad ffôn ynghylch anifail sydd mewn angen. Er nad yw'n digwydd bob tro, bydd llawer o filfeddygon yn rhoi triniaeth am ddim i anifeiliaid gwyllt ond gan nad yw aelodau o'r cyhoedd bob amser yn gwybod hyn, efallai y byddant yn amharod i fynd ag anifail gwyllt wedi'i anafu i'w milfeddygfa leol. Yn ogystal, mae sawl rhywogaeth o anifeiliaid gwyllt na ddylid cael eu cyffwrdd na'u trin gan berson heb ei hyfforddi.

### Argymhelliad yr RSPCA

Byddai cronfa ddata ganolog gan y Llywodraeth, un wirfoddol, wedi'i chynllunio i gadw'r holl ddata perthnasol yn ôl rhywogaeth a digwyddiad yn helpu i addysgu'r cyhoedd a llunwyr polisi yng Nghymru, yn ogystal â galluogi ymgyrchoedd wedi'u targedu i godi ymwybyddiaeth pan fo bywyd gwyllt yn cael ei fygwth gan weithgarwch pobl neu oherwydd nad ydym yn gwneud dim. Gallai gwybodaeth o'r fath arwain at ddeall anghenion lles anifeiliaid gwyllt yn well ac agor ffynonellau cyllid er mwyn gwneud hyd yn oed mwy o waith.

Mewn rhannau o Gymru yn ystod y gaeaf, mae morlo bach gwyn blewog i'w gweld yn aml. Yn anffodus, mae rhai yn mynd yn sâl neu'n cael eu gwahanu oddi wrth eu mam – weithiau oherwydd bod aelod o'r cyhoedd wedi mynd at yr anifail ar gam yn credu ei fod wedi cael ei adael. Yn 2014 gweithiodd yr RSPCA, yn aml gydag Achub Bywyd Morol Cymru, i achub 50 o forloi, y rhan fwyaf ohonynt yn llo'i ifanc ac felly roedd yn rhaid mynd â nhw i gyfleusterau arbenigol hyd nes eu bod yn ddigon iach a hen i gael eu rhyddhau yn ôl i'r gwyllt yn y flwyddyn newydd. Mae'n costio £2730 yr wythnos mewn bwyd yn unig am bob morlo bach yn ein gofal a gallant fod gyda ni am hyd at wyth mis.



Bywyd gwyllt mewn angen a gasglwyd yng Nghymru a'u derbyn i gyfleusterau bywyd gwyllt yr RSPCA ei hun:

2014 - 585  
2013 - 679  
2012 - 439



<sup>44</sup> Yn benodol 59 y cant. Daw'r ffigyrau hyn o YouGov Plc oni nodir yn wahanol. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,036 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 19 a 22 Awst 2015. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).